Cod Moeseg ar gyfer Gwaith Cymdeithasol

Datganiad o Egwyddorion

BASW
THE BRITISH ASSOCIATION OF SOCIAL WORKERS

Hawlfraint © British Association of Social Workers (Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol

Dyddiad: Ionawr 2012

Awdur: Pwyllgor Polisi, Moeseg a Hawliau Dynol

Contact: Fran McDonnell, Y Tîm Polisi

E-bost: policy@basw.co.uk

Cod Moeseg ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, Datganiad o Egwyddorion

Cyflwyniad – Ystod ac amcanion 4

1. Cefndir 5
    1.1 Moeseg yng ngwaith cymdeithasol.....5
    1.2 Diffiniad rhyngwladol o waith cymdeithasol 6

2. Gwerthoedd ac egwyddorion moesegol 8
    2.1 Hawliau dynol 8
    2.2 Cyfiawnder cymdeithasol..... 9
    2.3 Unplygrwydd proffesiynol 10

3. Egwyddorion ymarferiad moesegol..... 11

Atodiad 17

Cyflwyniad – Ystod ac amcanion

Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol yw'r gymdeithas broffesiynol i weithwyr cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig (DU). Mae'r Cod Moeseg yn datgan y gwerthoedd a'r egwyddorion moesegol sy'n sail i'r proffesiwn. Mae gan y Gymdeithas dyletswydd i sicrhau, cyn belled ag sy'n bosibl, bod ei aelodau yn cyflawni eu dyletswyddau moesegol ac yn cael cynnig yr hawliau proffesiynol angenrheidiol i ddiogelu a hybu hawliau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gwaith cymdeithasol. Gall y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gwaith cymdeithasol fod yn unigolion (plant, pobl ifanc neu oedolion), teuluoedd neu grwpiau neu gymunedau eraill.

Mae pob gweithiwr cymdeithasol sy'n aelod o BASW ym mhob swydd, sector a sefyllfa yn y DU yn rhwymedig i'r Cod. Mae gan weithwyr cymdeithasol cyfrifoldeb i hybu ac i weithio yn unol â'r Cod Moeseg wrth iddynt gyflawni eu goblygiadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gwaith cymdeithasol, i'w cyflogwyr, i'w gilydd, i gydweithwyr mewn disgyblaethau eraill ac i gymdeithas. Mae'r Gymdeithas yn cymeradwyo ac yn hybu'r Cod Moeseg i bob gweithiwr cymdeithasol, addysgwyr a'r rhai sy'n cyflogi gweithwyr cymdeithasol yn y DU.

Cafodd Cod Moeseg BASW, a fabwysiadwyd yn y lle cyntaf ym 1975, ei adolygu a'i ddiweddaru ar nifer o achlysuron. Mae'r Cod Moeseg hwn yn cymryd lle fersiwn 2002. Y man cychwyn yw'r cytundeb rhyngwladol Definition of Social Work (Diffiniad o Waith Cymdeithasol) Ffederasiwn Rhyngwladol Gweithwyr Cymdeithasol (IFSW) a Chymdeithas Ryngwladol Ysgolion Gwaith Cymdeithasol (IASSW), (2000) ac mae hefyd yn ymgorffori'r datganiad rhyngwladol Ethics in Social Work - Statement of Principles (Moeseg yng Ngwaith Cymdeithasol - Datganiad o Egwyddorion) (IFSW a IASSW, 2004) gyda rhai newidiadau. Cafodd y dogfennau allweddol hyn eu hadolygu a'u cytuno yn 2010 gan IFSW a IASSW.

Mae adrannau 1 a 2 o'r ddogfen hon yn defnyddio cefndir, diffiniad a'r datganiad o egwyddorion moesegol yn nogfen IFSW/IASSW (2004), gyda newidiadau yn cynnwys yr ychwanegiad o 'unplygrwydd proffesiynol' fel safon i fynd ochr yn ochr â hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol. Mae Adran 3 yn cynnwys egwyddorion ymarferiad sy'n dangos sut y gweithredir yr egwyddorion moesegol cyffredinol a amlinellir yn Adran 2 yng nghyd-destun y DU.

Cefndir

1.1 Moeseg yng ngwaith cymdeithasol

Mae bod yn ymwybodol o foeseg yn sylfaenol i ymarferiad proffesiynol gweithwyr cymdeithasol. Mae eu gallu a'u hymrwymiad i weithredu'n foesegol yn agwedd hanfodol o ansawdd y gwasanaeth a roddir i'r rhai sy'n ymwneud â gweithwyr cymdeithasol. Craidd ymarferiad gwaith cymdeithasol ar draws y byd yw bod â pharch i hawliau dynol ac ymrwymiad i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.

Tyfodd gwaith cymdeithasol allan o ddelfrydau dyngarol a democrataidd, ac mae ei gwerthoedd yn seiliedig ar barch i gydraddoldeb, gwerth ac urddas pawb. Ers y dechrau dros ganrif yn ôl, mae ymarferiad gwaith cymdeithasol wedi canolbwyntio ar gyfarfod ag anghenion dynol a datblygu dichonolrwydd dynol. Hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol yw'r cymhelliad a'r cyfiawnhad i waith cymdeithasol. Mewn undod â'r rhai sydd dan anfantais, mae'r proffesiwn yn ymdrechu i liniaru tlodi a gweithio gyda phobl fregus a'r rhai sydd dan ormes er nwyn hybu cynhwysiad cymdeithasol. Fe ymgorfforir gwerthoedd gwaith cymdeithasol yng nghodau moeseg genedlaethol a rhyngwladol y proffesiwn. Fe gynhwysir diffiniadau gweithiol o foeseg a gwerthoedd yn yr Atodiad

Mae'r Cod yn cynnwys datganiadau o werthoedd ac egwyddorion moesegol sy'n berthnasol i hawliau dynol, cyfiawnder cymdeithasol ac unplygrwydd proffesiynol, ac fe'i dilynir gydag egwyddorion ar ymarferiad sy'n dangos sut i gymhwyso'r egwyddorion moesegol yn ymarferol.

Ni fwriedir i'r egwyddorion ar ymarferiad fod yn gyflawn gan fod rhai sialensiau a phroblemau moesegol a wynebir gan weithwyr cymdeithasol yn ymarferol yn gyffredin ac eraill yn benodol i wledydd a sefyllfaoedd arbennig. Ni ddyluniwyd y Cod i fod yn gyfres o reolau manwl ar sut dylai gweithwyr cymdeithasol gweithredu mewn sefyllfaoedd penodol nac yn arweiniad ar ymarferiad. Yn hytrach, y bwriad yw, trwy amlinellu'r egwyddorion moesegol cyffredinol, annog gweithwyr cymdeithasol ar draws y DU i ystyried y sialensiau a'r cyfyng-gyngor a wynebir ganddynt ac i wneud penderfyniadau moesegol gwybodus ar sut i ymddwyn ym mhob achos arbennig yn unol â gwerthoedd y proffesiwn.

Mae problemau moesegol yn codi yn aml am fod gweithwyr cymdeithasol er enghraifft:

- **Gweithio gyda gofynion sy'n gwrthdaro a hawliau cystadleuol**
- **Meddu ar swydd i gefnogi, diogelu a rhoi grym i bobl, yn ogystal â dyletswyddau statudol a goblygiadau eraill a all fod yn orfodol a chyfyngu ar ryddid pobl.**
- **Dan gyfyngiad oherwydd argaeledd adnoddau a pholisïau sefydliadol yn y gymdeithas.**

1.2 Diffiniad rhyngwladol o waith cymdeithasol

Mae proffesiwn gwaith cymdeithasol yn hybu newid yn y gymdeithas, datrys problemau mewn cysylltiadau dynol a rhoi grym a rhyddid i bobl i wella lles. Gan ddefnyddio damcaniaethau ar ymddygiad dynol a rhoi grym a rhyddid i bobl i wella lles. Gan ddefnyddio damcaniaethau ar ymddygiad dynol a systemau cymdeithasol, mae gwaith cymdeithasol yn ymyrryd yn y mannau lle mae pobl yn rhyngweithio gyda'u hamgylcheddau. Mae egwyddorion hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol yn sylfaenol i waith cymdeithasol.

Yn ei ffurfiau amrywiol, mae gwaith cymdeithasol yn ymdrin â'r trafodaethau lluosog a chymhleth rhwng pobl a'u hamgylcheddau. Ei bwriad yw galluogi pawb i ddatblygu eu potensial llawn, cyfoethogi eu bywydau ag atal camweithredu. Mae gwaith cymdeithasol proffesiynol yn canolbwyntio ar ddatrys problemau a newid. Fel y cyfryw, mae gweithwyr cymdeithasol yn asiantau newid yn y gymdeithas ac ym mywydau'r unigolion, y teuluoedd a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae gwaith cymdeithasol yn system ryngberthynol o werthoedd, damcaniaethau ac ymarferiad.

Damcaniaeth:

Mae methodoleg gwaith cymdeithasol yn seiliedig ar grynswth systematig o dystiolaeth wybodus o wybodaeth a gafwyd trwy ymchwil a gwerthuso ymarferiad, yn cynnwys gwybodaeth leol a cynhenid sy'n benodol i'w gyd-destun. Mae'n cydnabod y cymhlethdodau rhyngberthynol rhwng bodau dynol a'u hamgylchedd, a sut y gall pobl cael eu heffeithio gan y dylanwadau lluosog arnynt a'u gallu i'w newid, yn cynnwys ffactorau bioseicogymdeithasol. Mae proffesiwn gwaith cymdeithasol yn defnyddio damcaniaethau ar ddatblygiad ac ymddygiad dynol a systemau cymdeithasol i ddadansoddi sefyllfaoedd cymhleth ai hwyluso newidiadau unigol, cyfundrefnol, cymdeithasol a diwylliannol.

Ymarferiad:

Mae ymarferiad gwaith cymdeithasol yn mynd i'r afael a'r rhwystrau, camweddau a'r anghyfiawnder sy'n bodoli mewn cymdeithas. Mae'n ymateb i argyfyngau ag achosion brys yn ogystal â phroblemau personol a chymdeithasol o ddydd i ddydd. Mae gwaith cymdeithasol yn defnyddio amryw o sgiliau, technegau a gweithgareddau sy'n gyson â'i ffocws holistig ar bobl a'u hamgylcheddau. Mae ymyriadau gwaith cymdeithasol yn amrywio o fod yn bennaf, prosesau sy'n rhoi ffocws seicogymdeithasol ar bobl, i fod yn ymwneud a chynllunio a datblygu polisïau cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys cwnsela, gwaith cymdeithasol clinigol, gwaith grŵp, gwaith cymdeithasol pedagogeg, a thriniaeth a therapi teuluol yn ogystal â chynorthwyo pobl i gael gwasanaethau ac adnoddau yn y gymuned. Mae ymyriadau hefyd yn cynnwys gweinyddu asiantaeth, trefniadau cymunedol a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a gwleidyddol i effeithio ar bolisïau cymdeithasol a datblygiad economaidd. Mae'r ffocws holistig ar waith cymdeithasol yn fyd-eang ond bydd y blaenoriaethau ar ymarferiadau gwaith cymdeithasol yn amrywio o wlad i wlad ac o bryd i'w gilydd, yn dibynnu ar y cyflwr diwylliannol, hanesyddol, cyfreithiol ag economaidd-gymdeithasol.

Fe ddeellir bod gwaith cymdeithasol yn yr 21ain ganrif yn ddeinamig ac yn esblygu, ac felly ni ddylid ystyried bod unrhyw ddiffiniad yn gyflawn.

2. Gwerthoedd ac egwyddorion moesegol

2.1 Hawliau dynol

Gwerthoedd

Mae gwaith cymdeithasol yn seiliedig ar barch at werth ac urddas cynhenid pawb fel y datgenir yn Natganiad Hawliau Dynol Byd-eang y Cenhedloedd Unedig (1948) a datganiadau perthnasol eraill gan y Cenhedloedd Unedig a'r hawliau a'r confensiynau sy'n deillio o'r datganiadau hyn.

Egwyddorion

1 Cynnal a hyrwyddo urddas a lles dynol

Dylai gweithwyr cymdeithasol parchu, cynnal ac amddiffyn unplygrwydd corfforol, seicolegol, emosiynol ac ysbrydol a lles pawb. Dylent weithio tuag at hyrwyddo lles gorau unigolion a grwpiau yn y gymdeithas ac osgoi niwed.

2 Parchu'r hawl i hunanbenderfyniaeth

Dylai gweithwyr cymdeithasol parchu, hyrwyddo a chefnogi urddas a hawl pobl i wneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain, heb ystyried gwerthoedd a dewisiadau bywyd eu hunain, ar yr amod nad yw hyn yn bygwth eu hawliau, diogelwch a diddordebau cyfreithlon eraill.

3 Hyrwyddo'r hawl i gymryd rhan

Dylai gweithwyr cymdeithasol hybu ymglymiad a chyfranogiad llawn y bobl sy'n defnyddio'u gwasanaethau mewn dulliau sy'n rhoi iddynt awdurdod ym mhob agwedd o benderfyniadau a gweithredoedd sy'n effeithio ar eu bywydau.

4 Ymdrin â phob person yn ei gyfanrwydd

Dylai gweithwyr cymdeithasol ymwneud a'r person yn ei gyfanrwydd, o fewn y teulu, y gymuned, yn gymdeithasol a'r amgylcheddau naturiol, a cheisio dod i wybod am bob agwedd o fywyd yr unigolyn.

5 Dynodi a datblygu cryfderau

Dylai gweithwyr cymdeithasol canolbwyntio ar gryfderau pob unigolyn, grŵp a chymuned ac felly hyrwyddo eu grym.

2.2 Cyfiawnder cymdeithasol

Gwerthoedd

Mae gan weithwyr cymdeithasol cyfrifoldeb i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol mewn perthynas â chymdeithas yn gyffredinol â'r rhai y maent yn gweithio gyda.

Egwyddorion

1 Herio gwahaniaethu

Mae gan weithwyr cymdeithasol cyfrifoldeb i herio gwahaniaethu ar sail nodweddion megis gallu, oedran, diwylliant, cenedl neu rhyw, statws priodasol, statws cymdeithasol-ddiwylliannol, daliadau gwleidyddol, lliw croen, nodweddion hiliol neu gorfforol eraill, tueddfryd rhywiol neu gredoau ysbrydol.

2 Adnabod amrywiaeth

Dylai gweithwyr cymdeithasol adnabod a pharchu amrywiaeth y cymdeithasau lle maent yn gweithio, gan ystyried gwahaniaethau unigol, teuluol, grŵp a chymunedol.

3 Dosbarthu adnoddau

Dylai gweithwyr cymdeithasol sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael ganddynt yn cael eu dosbarthu'n deg, yn unol â'r angen.

4 Herio polisïau ac ymarferiadau anghyfiawn

Mae'n ddyletswydd ar weithwyr cymdeithasol i dynnu sylw eu cyflogwyr, darparwyr polisïau, gwleidyddion a'r cyhoedd pan fo adnoddau yn annigonol neu lle mae dosbarthu adnoddau, polisïau ac ymarferiad yn ormesol, annheg, niweidiol neu yn anghyfreithlon.

5 Gweithio mewn undod

Mae'n ddyletswydd i weithwyr cymdeithasol, yn unigol, yn gyfunol a gydag eraill i herio cyflwr cymdeithasol sy'n cyfrannu tuag at eithrio cymdeithasol, gwarthnodaeth neu ddarostyngiad, ac i weithio tuag at gymdeithas gynhwysol.

2.3 Unplygrwydd proffesiynol

Gwerthoedd

Mae gan weithwyr cymdeithasol cyfrifoldeb i barchu a chynnal gwerthoedd ac egwyddorion y proffesiwn ac i weithredu mewn dull cyfrifol, gonest a dibynadwy.

Egwyddorion

1 Cynnal gwerthoedd ac enw da'r proffesiwn

Dylai gweithwyr cymdeithasol gweithredu ar bob adeg yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion y proffesiwn a sicrhau nad yw eu hymddygiad yn dwyn gwarth ar y proffesiwn.

2 Bod yn ddibynadwy

Dylai gweithwyr cymdeithasol weithio mewn dull sy'n onest, yn ddibynadwy ac yn dryloyw, gan egluro eu dyletswyddau, eu hymyriadau a phenderfyniadau ac i beidio ceisio twyllo neu ymdrin y bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau, eu cydweithwyr neu eu cyflogwyr.

3 Cynnal ffiniau proffesiynol

Dylai gweithwyr cymdeithasol creu ffiniau priodol yn eu perthynas a defnyddwyr y gwasanaethau a'u cydweithwyr, a pheidio camddefnyddio eu sefyllfa er budd personol, lles ariannol neu ymelwad rhywiol.

4 Gwneud dyfarniadau proffesiynol ystyriol

Dylai gweithwyr cymdeithasol gwneud dyfarniadau yn seiliedig ar ystyriaethau cytbwys ac ystyriol, gan gadw ymwybyddiaeth o effaith eu gwerthoedd, rhagfarnau a gwrthdrawiadau o ddiddordeb eu hunain ar eu hymarferiad ac ar bobl eraill.

5 Bod yn ymatebol yn broffesiynol

Dylai gweithwyr cymdeithasol bod yn barod i adrodd am ac i gyfiawnhau eu dyfarniadau a'u gweithredoedd i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, i gyflogwyr ac i'r cyhoedd.

3. Egwyddorion ymarferiad moesegol

Mae gan weithwyr cymdeithasol cyfrifoldeb i gymhwyso yn eu hymarferiad y gwerthoedd ac egwyddorion proffesiynol a welir uchod. Dylent weithredu gydag unplygrwydd a thrin pobl gyda thosturi, empathi a gofal.

Mae egwyddorion ymarferiad moesegol yn gymwys ar draws y DU ond ni ddylid tybio eu bod yn gyflawn neu i fod yn gyfarwyddeb fanwl. Fe fydd amrywiaethau yn y dehongliad ac arweiniad yn y gwahanol wledydd. Dylai gweithwyr cymdeithasol ystyried y codau ymarfer, deddfwriaeth, fframweithiau trefn lywodraethol, ymarferiad proffesiynol a safonau hyfforddi priodol ym mhob gwlad yn y DU, ar yr amod eu bod yn gyson â'r Cod Moeseg. Fe gefnogir y Cod hefyd gan ddogfennau polisi eraill BASW.

Dylai gweithwyr cymdeithasol ymdrechu i gyflawni amcanion datganedig eu cyflogwyr neu gomisiynwyr, ar yr amod eu bod yn gyson a'r Cod Moeseg. Mae BASW yn disgwyl i gyflogwyr fod â systemau a dulliau yn bodoli i hybu hinsawdd sy'n cefnogi, monitro, adolygu ac i wneud yr hyn sy'n angenrheidiol i sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gallu cydymffurfio â'r Cod Moeseg a gofynion eraill i gyflwyno ymarferiad sy'n ddiogel ag effeithiol.

Egwyddorion

1 **Datblygu cysylltiadau proffesiynol**
Dylai gweithwyr cymdeithasol creu a chynnal cysylltiadau proffesiynol sy'n seiliedig ar hawl pobl i reoli eu bywydau eu hunain ac i wneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain. Dylai cysylltiadau gwaith cymdeithasol fod yn seiliedig ar hawliau pobl am barch, dibynadwyedd a chyfrinachedd. Dylai gweithwyr cymdeithasol cyfathrebu yn effeithiol a gweithio mewn partneriaeth gydag unigolion, teuluoedd, grwpiau, cymunedau ac asiantaethau eraill. Dylent werthfawrogi a pharchu cyfraniadau cydweithwyr o ddisgyblaethau eraill.

2 **Asesu a rheoli risg**
Dylai gweithwyr cymdeithasol cydnabod bod gan y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gwaith cymdeithasol yr hawl i gymryd risg ac fe ddylent eu galluogi i ddynodi a rheoli'r potensial am risg a risg gwirioneddol, gan geisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn peryglu eu hunain neu bobl eraill. Dylai gweithwyr cymdeithasol cefnogi pobl sydd wedi dod i benderfyniad gwybodus am eu bywydau a hybu eu hymreolaeth a'u hannibyniaeth, ar yr amod nad yw hyn yn gwrthdaro a'u diogelwch neu hawliau pobl eraill. Ni ddylai gweithwyr cymdeithasol cymryd camau sy'n lleihau hawliau sifil neu gyfreithlon pobl ond pan ellir cyfiawnhau hyn yn foesegol, yn broffesiynol ac yn gyfreithlon.

3 **Gweithredu gyda chaniatâd gwybodus defnyddwyr y gwasanaeth, oni bai i'r gyfraith mynnu bod yr unigolyn hwnnw neu un arall yn cael eu hamddiffyn rhag risg neu niwed difrifol.**
Dylai gweithwyr cymdeithasol canfod a pharchu dewisiadau a dymuniadau pob unigolyn a'u hawl i ymwneud â phenderfyniadau cyn belled ag y mae'n bosibl, pa un ai oes ganddynt hwy neu eraill y pwerau i wneud penderfyniadau ar ran yr unigolyn ai peidio. Mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd, lle mae'r gyfraith yn rhoi i riant neu warchodwr y pŵer caniatâd mewn perthynas â phlentyn, i ganfod a pharchu dymuniadau a

theimladau'r plentyn gan roi sylw priodol i aeddfedrwydd a dealltwriaeth y plentyn. Mae'n angenrheidiol i weithwyr cymdeithasol cydnabod effaith y pŵer anffurfiol a gorfodol sydd ganddynt a rhai'r mudiadau sydd yn gysylltiedig.

4 Rhoi gwybodaeth

Dylai gweithwyr cymdeithasol roi'r wybodaeth angenrheidiol i bobl fel y gallent wneud dewisiadau a phenderfyniadau gwybodus. Dylent hwyluso i bobl i gael mynediad i'r holl wybodaeth a gofnodwyd amdanynt eu hunain, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodwyd gan y gyfraith. Dylai gweithwyr cymdeithasol cynorthwyo pobl i ddeall am ac i weithredu eu hawliau, yn cynnwys gwneud cwynion a phenderfyniadau eraill.

5 Rhannu gwybodaeth yn briodol

Dylai gweithwyr cymdeithasol sicrhau bod rhannu gwybodaeth yn amodol ar ofynion moesegol mewn perthynas â phreifatrwydd a chyfrinachedd ar draws yr asiantaethau a'r proffesiynau, ac o fewn asiantaeth amlbwrpas.

6 Defnyddio awdurdod yn unol ag egwyddorion hawliau dynol

Dylai gweithwyr cymdeithasol defnyddio awdurdod eu swydd mewn dull, cyfrifol, atebol a pharchus. Dylent weithredu awdurdod yn briodol i ddiogelu eu cydweithwyr ac i sicrhau bod gan bobl cymaint o reolaeth ar eu bywydau ag sy'n gyson â hawliau eraill.

7 Rhoi grym i bobl

Dylai gweithwyr cymdeithasol hybu a chyfrannu tuag at ddatblygu polisïau, gweithdrefnau ac ymarferiadau cadarnhaol sy'n wrth ormesol ac sy'n rhoi grym. Dylent barchu credoau, gwerthoedd, diwylliant, nodau, anghenion, dewisiadau, perthynas a thadogaeth pobl. Dylai gweithwyr

cymdeithasol cydnabod eu rhagfarnau eu hunain er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn neu grŵp. Dylent sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu cynnig a'u cyflwyno mewn dull sy'n ddiwylliannol addas. Dylent herio a cheisio ymdrin ag unrhyw weithgareddau gan gydweithwyr sy'n dangos gwahaniaethau neu ragfarnau negyddol.

8 Herio'r camddefnydd o hawliau dynol

Dylai gweithwyr cymdeithasol fod yn barod i herio polisïau, gweithdrefnau ac ymarferiadau gwahaniaethol, aneffeithiol ac annheg. Dylent herio'r camddefnydd o rym a gwaharddiad pobl o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Ni ddylai gweithwyr cymdeithasol cydgynllwynio ag erydiad hawliau dynol neu ganiatáu i'w sgiliau cael eu defnyddio i anghenion creulon megis camddefnydd cyfundrefnol, carcharu plant sy'n ymofyn am noddfa a bygythiadau i fywydau teuluol y rhai hynny mewn sefyllfaoedd bregus.

9 Bod yn barod i chwythu'r chwib

Dylai gweithwyr cymdeithasol bod yn barod i adrodd am ymarferiadau drwg gan ddefnyddio pob sianel sydd ar gael yn cynnwys y weithdrefn cwyno ac os yn angenrheidiol, defnyddio deddfwriaeth datgelu mater o ddiddordeb cyhoeddus a chanllawiau chwythu'r chwib.

10 Cadw cyfrinachedd

Dylai gweithwyr cymdeithasol parchu egwyddorion cyfrinachedd sy'n gymwys i'w cysylltiadau a sicrhau nad yw gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei ddatgelu ond gyda chaniatâd yr unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau gwaith cymdeithasol neu'r hysbysydd. Yr unig eithriadau i hyn y gellir eu cyfiawnhau yw ar sail gofyniad moesegol mwy megis tystiolaeth o risg difrifol neu ddiogelu bywyd. Mae'n angenrheidiol i weithwyr cymdeithasol egluro natur y cyfrinachedd hwn i bobl y maent yn gweithio gyda, a dylid gwneud yn eglur unrhyw amgylchiadau lle rhaid hepgor cyfrinachedd. Dylai gweithwyr cymdeithasol dynodi

unrhyw benblethau am gyfrinachedd a cheisio cymorth i ymdrin â'r materion hyn.

11 Cadw cofnodion clir a chywir

Dylai gweithwyr cymdeithasol cadw cofnodion clir, diduedd a chywir a chyflwyno tystiolaeth i gefnogi dyfarniadau proffesiynol. Dylent gofnodi materion perthnasol yn unig a nodi ffynhonnell y wybodaeth.

12 Ymdrechu am wrthrychedd a hunan ymwybyddiaeth mewn ymarferiad proffesiynol

Dylai gweithwyr cymdeithasol ystyried a gwerthuso'n feirniadol eu hymarferiadau a bod yn ymwybodol o'u heffaith ar eraill. Dylai gweithwyr cymdeithasol cydnabod cyfyngiadau eu hymarferiadau a gofyn am gyngor neu, os yn angenrheidiol, cyfeirio at weithiwr proffesiynol arall i sicrhau eu bod yn gweithio mewn dull sy'n ddiogel ag effeithiol.

13 Defnyddio goruchwyliaeth broffesiynol a chefnogaeth cyfoedion i ystyried ymarferiad a'i wella

Dylai gweithwyr cymdeithasol cymryd y cyfrifoldeb i sicrhau y gallent gael goruchwyliaeth a thrafodaeth broffesiynol a fydd yn eu cefnogi i ystyried a gwneud dyfarniadau proffesiynol cadarn yn seiliedig ar ymarferiad da. Mae BASW yn disgwyl i bob cyflogwr roi goruchwyliaeth broffesiynol briodol i weithwyr cymdeithasol a hyrwyddo gwaith mewn tîm a chyfathrebiad effeithiol.

14 Cymryd y cyfrifoldeb am eu hymarferiadau eu hunain a datblygiad proffesiynol parhaus

Dylai gweithwyr cymdeithasol datblygu a chynnal agweddau, gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i roi gwasanaethau o ansawdd ac ymarferiadau atebol. Mae angen iddynt gadw'n gyfoes gydag ymchwil perthnasol, dysgu oddi wrth weithwyr proffesiynol eraill a defnyddwyr y gwasanaeth. Mae BASW yn

disgwyl i gyflogwyr sicrhau bod anghenion addysgiadol a datblygol gweithwyr cymdeithasol ar gael a cheisio adnoddau digonol ar gyfer hyn.

15 Cyfrannu tuag at welliant parhaus i ymarferiad proffesiynol

Dylai gweithwyr cymdeithasol ymdrechu i greu amodau mewn asiantaethau cyflogi ac yn eu gwledydd lle mae egwyddorion y Cod yn cael eu trafod, gwerthuso a'u cynnal yn ymarferol. Dylent gymryd rhan mewn trafodaethau moesegol gyda'u cydweithwyr a chyflogwyr er mwyn rhannu gwybodaeth a chymryd y cyfrifoldeb i wneud penderfyniadau gwybodus. Dylent ymdrechu i geisio newid polisïau, gweithdrefnau, gwelliannau i wasanaethau neu amodau gwaith yn unol â'r arweiniad ar foeseg y proffesiwn.

16 Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol eraill

Dylai gweithwyr cymdeithasol cyfrannu tuag at addysg a hyfforddiant cydweithwyr a myfyrwyr trwy rannu gwybodaeth a doethineb ymarferiad. Dylent nodi, datblygu, defnyddio a lledaenu gwybodaeth, damcaniaethau ac ymarferiad. Dylent gyfrannu tuag at addysg gwaith cymdeithasol, yn cynnwys darparu gosodiadau o ansawdd dda, a sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod am eu cyfrifoldebau moesegol i ddefnyddio'r Cod yn eu hymarferiadau.

17 Hwyluso a chyfrannu tuag at werthuso ag ymchwil

Dylai gweithwyr cymdeithasol defnyddio gwybodaeth a phrofiad proffesiynol i gymryd rhan mewn ymchwil ac i gyfrannu tuag at ddatblygu polisïau a rhaglenni sy'n seiliedig ar foeseg. Dylent ddadansoddi a gwerthuso ansawdd a chanlyniadau eu hymarferiadau gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gwaith cymdeithasol.

Atodiad Rhai diffiniadau gweithiol o dermau allweddol

(addaswyd o Banks, S. (2012) Ethics and Values in Social Work, 4ydd argraffiad, Basingstoke, Palgrave Macmillan, BASW Macmillan Practical Social Work Series)

Diffiniadau gweithiol o foeseg a moeseg broffesiynol

Yn gyffredinol mae 'moeseg' yn ymwneud â materion o ymddygiad cywir ag anghywir, ansoddau cymeriad da a drwg a chyfrifoldebau sydd ynghlwm i gysylltiadau. Er y dywedir yn aml fod y testun moeseg yn ymwneud â lles dynol, mae'r darlun ehangach yn cynnwys hefyd anifeiliaid iach a'r holl system eco. Gellir defnyddio'r term 'moeseg' yn yr ystyr unigol i gyfeirio at yr astudiaeth o safonau ymddygiad cywir ag anghywir, ansoddau cymeriad da a drwg; neu mewn ystyr lluosog, i gyfeirio at y gwir safonau ac ansoddau.

Mae moeseg broffesiynol yn ymwneud a materion o ymddygiad cywir ac anghywir, ansoddau cymeriad da a drwg a'r cyfrifoldebau proffesiynol sydd ynghlwm i gysylltiadau yng nghyd-destun gwaith.

Diffiniadau gweithiol o werthoedd a gwerthoedd gwaith cymdeithasol

Mewn iaith pob dydd, defnyddir 'gwerthoedd' i gyfeirio at un neu holl gredoau crefyddol, moesol, diwylliannol, gwleidyddol neu ideolegol, egwyddorion, agweddau, barnau neu ddewisiadau. Yng ngwaith cymdeithasol gellir ystyried 'gwerthoedd' i fod yn fathau arbennig werthfawr. Yng nghyd-destun ymarferiad proffesiynol, mae'r term 'cred' yn adlewyrchu'r statws bod gwerthoedd yn gryfach na barnau neu ddewisiadau yn unig.

Mae'r term 'gwerthoedd gwaith cymdeithasol' yn cyfeirio at amrediad o gredoau am yr hyn a ystyrir i fod yn glodwiw neu yn werthfawr yn y cyd-destun gwaith cymdeithasol (credoau cyffredinol am natur y gymdeithas dda, egwyddorion cyffredinol ar sut i gyflawni hyn trwy weithredoedd, a'r ansoddau dymunol neu nodweddion cymeriad ymarferwyr proffesiynol).

Egwyddorion a safonau (neu reolau)

Mae egwyddorion yn safonau hanfodol mewn system o feddwl neu gred, sy'n creu sail i ymresymiad yn y system honno. Mewn codau moeseg, yn aml fe rennir egwyddorion yn ddau fath:

Egwyddorion moesegol – datganiadau cyffredinol o egwyddorion moesegol sy'n greiddiol i'r gwaith, yn berthnasol i agweddau, hawliau a dyletswyddau am les dynol, er enghraifft: 'parchu ymreolaeth defnyddwyr y gwasanaethau'; 'hybu lles dynol'.

Egwyddorion am ymarferiadau proffesiynol – datganiadau cyffredinol ar sut i gyflawni'r hyn a fwriedir i fod er lles defnyddiwr y gwasanaeth, er enghraifft: 'cydweithio gyda chydweithwyr'.

Mae i egwyddorion cwmpas llawer ehangach na rheolau (neu 'safonau'), gan dueddu i fod yn gymwys i bobl ym mhob amgylchiad (er yn achos gwaith cymdeithasol, mae egwyddorion yn aml yn cyfeirio at 'holl ddefnyddwyr y gwasanaeth'). Felly, er enghraifft, mae 'dylai gweithwyr cymdeithasol parchu ymreolaeth egwyddor foesegol; tra gellir edrych ar 'ni ddylai gweithwyr cymdeithasol ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i dalwyr trydydd parti oni bai i'r cleientiaid rhoi awdurdod i wneud y fath datgeliad' i fod yn safon neu reol, moesegol. Gellir rhannu safonau hefyd i ddau fath, er yn aml ni ellir eu dangos yn glir mewn codau moeseg.

Safonau neu reolau moesegol – ychydig o fan bethau, weithiau wedi ei fframio fel 'safonau' er enghraifft: 'peidiwch â chaniatáu i wybodaeth cael ei ddefnyddio am bolisïau gwahaniaethol'; 'diogelu holl wybodaeth gyfrinachol'.

Safonau ymarferiad proffesiynol – arweiniad penodol iawn mewn perthynas ag ymarferiad proffesiynol, er enghraifft: 'datgan cymynrodd mewn ewyllys cleient'; 'ni ddylai hysbysebu hawlio rhagoriaeth'.

Gellir lawr lwytho copïau PDF o'r ddogfen hon o:
www.basw.co.uk

Hawlfraint © British Association of Social Workers (Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol)

Cedwir yr holl hawliau

Ni chaiff unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn cael ei atgynhyrchu mewn unrhyw ddull materol heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint.

The British Association of Social Workers
(Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol)
16 Kent Street
Birmingham B5 6RD

Ffon: 0121 622 3911 Ffacs: 0121 622 4860